Y Pwyllgor Deisebau
Petitions Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Ein cyf: P-04-480

19 Rhagfyr 2013

Annwyl Syr/Madam,

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn ystyried deiseb am safonau llety myfyrwyr a gafodd ei chyflwyno gan Undeb Myfyrwyr Aberystwyth. Rydym yn ysgrifennu at amryw o sefydliadau i gael eu barn, ac rydym hefyd yn awyddus i gael barn myfyrwyr.

Hoffem glywed am eich profiadau chi wrth rentu llety yn y sector preifat. Mae Undeb Myfyrwyr Aberystwyth wedi cyhoeddi adroddiad sy'n amlinellu'r problemau a welwyd ganddynt yn Aberystwyth.

Mae gennym ddiddordeb penodol yn y materion canlynol:

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8998
E-bost: deisebau@cymru.gov.uk

- Ydych chi wedi gorfod talu rhent dros yr haf, ac yna wedi methu ag aros yn y llety? Os felly, a wnaethoch chi siarad â'ch landlord i ddatrys y sefyllfa?
- Ydych chi wedi gorfod talu ffioedd gweinyddol? Os do, faint fu'n rhaid i chi ei dalu? Ydych chi'n credu fod lefel y ffi yn deg?
- Os cawsoch broblemau gyda'ch llety, beth oedd y problemau hynny? Pa mor hawdd oedd cael rhywun i'w datrys?
- Yn eich barn chi, pa welliannau ddylai gael eu gwneud i wella safonau llety myfyrwyr?

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, byddem yn falch o'i chael erbyn **28 Chwefror 2014.** Gallwch anfon copi electronig o'ch sylwadau at deisebau@cymru.gov.uk. Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor Deisebau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd CF99 1NA.

**Ymateb i gais i gyfrannu at yr ymgynghoriad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad cyn penderfynu a yw am gynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor y gwanwyn.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **28 Chwefror 2014.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr ddosbarthu atodedig anfon sylwadau. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar petaech yn gallu anfon
copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir

William Powell

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau